YR YMOFYNYDD

RHYDDID · GWIRIONEDD · CARIAD

Y Gwirionedd a'ch Rhyddha chwi.

RHIF 7. GORFFENNAF, 1925. PRIS, 3c.

.. CYNHWYSIAD...

Y FAM A'I MEIBION.

ODDIAR Y TWR.

RHAI O HEN UNDODWYR Y RHONDDA.

ANNERCHIAD GAN MRS. CLEDLYN DAVIES.

PRIODAS.

MARWGOFION.

MANION AC HANESION.

Llandysul:
Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer

YR • YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 3c. y mis; drwy y *Post*, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

Geiriadur • Beiblaidd

Y GWAITH PWYSICAF AR Y BEIBL A GYHOEDDWYD YN GYMRAEG. . .

Pedair mil o Erthyglau gan 180 o'n gwyr blaenaf.

— Pris 1/6 y Rhifyn. —

I'W GAEL O—

Swyddfa'r Ymofynydd, Llandyssul.

.. RICHARD PRICE ..

Philosopher and Apostle of Liberty

Gan ROLAND THOMAS, M.A.,
Cyfarwyddwr yr Ysgol Wyliau Gymraeg.

Gwasg Prifysgol Rhydychain, 5/-

Drwy'r post 5/5.

Anfoner i Swyddfa'r Ymofynydd, Llandyssul

T. E. Jones & Co.,

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers & Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, &c.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] GORFFENAF, 1925. [CYF. XXV. RHIF 7.

Y FAM A'I MEIBION.

'RWY'N nabod rhyw fam
Sy'n cerdded bob cam
Rownd i'r ddaear, bob deu-
ddeng mis ;
Pedwar mab yn gwmpeini
Sy gan hon, ac am rheini
Ni chymer yr hen-wraig un pris.

Un garw yw'r cyntaf,
A hwn ydyw'r bryntaf
A'r llymaf o'r teulu i gyd ;
Ond mae yntau yn meddu
Un siwt i'w ryfeddu,
Siwt wynnach nag unpeth
trwy'r byd.

Un llon ydyw'r ail
Yn ei siaced o ddail,
A'u ddwylo o flodau a'u llond ;
Daw ag adar i'n llwyn,
Ac i'r meysydd ag ŵyn ;
Y mae pobun ohono yn ffond.

Ond y trydydd yw'r prif,
Ac ni ŵyr neb mo rif
Y ffafrau a ddwg yn ei gôl ;
Ar hirddydd tes-felyn
Pan diwnio ei delyn,
Dwg baradwys i'r ddaear yn ôl.

Daw'r pedwerydd i'r cwm
Gan ei bwyll, rhag mor drwm
Yw ei gôd o anrhegion hardd ;
Fel sofrod melynion
Yw ei ffafrau i ddynion
O'r ydfaes, a'r berllan, a'r ardd.

Yn wir, mae'r Tymhorau
Bob un ar eu gorau,—
Pob bendith i'r byd a ddaw
trwyddyn' ;
A phawb yn dywedyd
Bod y pedwar yn gredyd
I'w hen-fam haelionus — y
Flwyddyn.

Allan o "*Tusw o Flodau*"
(D. CLEDLYN DAVIES).

ODDIAR Y TWR.

YMAE yn fy mynwes le cynnes iawn i dref henafol Caerfyrddin; oblegid ynddi, flynyddoedd lawer yn ol, treuliais bedair blynedd dedwydd iawn. Nid oedd y dedwyddwch yn hollol berffaith, mae'n wir; daethai blinderau i'm cwrdd bryd hynny, fel wedi hynny, megis, ambell i arholiad. Nid peth ffafriol i ddedwyddwch pur yw arholiad; er bod arholiad yn beth a ddeffry deimladau byw iawn ym mynwes yr un a arholir—"*the most thrilling thing in the world*" sydd ddisgrifiad o arholiad a glywais yn ddiweddar. Tebig iawn yw'r person a arholir i garcharor o flaen y barnwr.

* * *

Y mae'r genhedlaeth o drefwyr a drigai yno dymor fy myfyrdodaeth i, yn ddiameu, wedi diflannu—ymron yn llwyr; a chenhedlaeth arall sydd yno yn awr. A phelled ag y mae a fynno r trigolion presennol â'r mater, ni pherthyn i dref Caerfyrddin fwy o ddiddordeb nag a berthyn i ryw dref arall- i mi. Eithr da gennyf, er hynny, gael ambell i gyfle yn awr ac eilwaith i ymweld â'r lle, a mynd dros yr hen lwybrau—yn enwedig y llwybr i'r Colegdy.

* * *

Erys y llwybr i'r Colegdy yr un; eithr yn y Colegdy y mae popeth yn newydd - athrawon newydd, myfyrwyr newydd, a Cholegdy newydd—yn rhannol, o leiaf. O feddwl am athrawon a myfyrwyr fy amser i, daethai geiriau'r bardd o Lan Geirionydd yn fyw iawn i'm cof:

"Pa fodd, pa le mae heddyw,
Y lluaws yma fu'n
Cyd-chwarae a chyd-ddysgu,
A chydymgomio'n gu?
Mae rhai mewn bedd yn huno,
A'r lleill ar led y byd;
Nid oes un gloch a ddichon
Eu galw heddyw 'nghyd."

Ie, yn cyd-chwarae, yn ogystal a chyd-ddysgu a chydymgomio; oblegid nid oes un bywyd mwy difyr na bywyd myfyriwr; nid yn hawdd y ceir un dosbarth llawnach o asbri diniwed na'r dosbarth myfyriol.

* * *

Cymrais y pen yn fy llaw i'r diben o ysgrifennu nodyn neu ddau am y Gymanfa Ganu; ond rhywfodd, yn lle mynd at y testun yn uniongyrchol, crwydrodd fy meddwl, a'r tri nodyn uchod yw'r

cynnyrch. Cynhaliwyd y Gymanfa yng Nghapel eang yr Annibynwyr yn Heol Awst. Braidd y mae angen gwastraffu papyr ac inc i ddyweyd hyn; oblegyd gwybyddus ydyw i'r oll o'n darllenwyr; ond rhaid dechreu yn rhywle. Pan eisteddwn yn y côr mawr cyn dechreu'r oedfa foreol, o sylwi ar y cof-feini ar y mur uwchben yr areithfa, ymsoniais fel hyn: "Dyma ni wedi cyd-gwrdd ar lecyn cysegredig iawn; i ni, fel enwad, llecyn cyfoethog o ddiddordeb. Am o gwmpas dwy ganrif bu baner rhyddid yn cyhwfanu uwch y lle—nid rhyddid yn yr ystyr eangaf, o bosibl, ond rhyddid, er hynny. Mor fawr ein dyled ni o'r genhedlaeth bresennol i'r "ffyddloniaid dewrion" a fu'n cyniwair i'r lle hwn a lleoedd eraill cyffelyb yn ystod y ddwy ganrif ddiweddaf, ac a fu mor ffyddlon i lais cydwybod. A sylweddasom ni faint ein dyled iddynt? Ydym ni yn deilwng o honynt."

* * *

Ar y ffordd tua Chaerfyrddin, ac yn ol oddiyno hefyd—yr wyf yn crwydro eto; pechod parod pregethwr yw crwydro oddiwrth ei destun—eid drwy gymdogaethau llawn o ddiddordeb, i ni Undodiaid, fel i Anghydffurfwyr yn gyffredinol. Dyna'r ardal o Alltwalis i Rydargaeau: gellid ysgrifennu amryw lithiau ar hanes crefydd yn yr ardal hon a ddarllenai'n fwy tebig i ramant nag i hanes. Ac wrth ddychwelyd yn yr hwyr, tra'n teithio oriwaered o drum banc Alltwalis tua phentref Pencader, ai'r olwg yn naturiol tuag ardal Cwmhwplin yn y pellter, lle bu tadau Anghydffurfiol cyntaf y cymdogaethau hyn yn cyniwair i addoli mewn tawelwch a rhyddid oddiwrth ymyrraeth nas ceid yn unman arall. Amserau enbyd oedd yr amserau hynny. Wyddom ni o'r genhedlaeth bresennol ddim o werth y rhyddid a fwynhawn—y penrhyddid, yn hytrach.

* * *

Ni fwriadaf ysgrifennu hanes y Gymanfa; cymred rhywun arall at y gorchwyl hwnnw. Ni wnaf fi ond rhoi ar bapur feddwl neu ddau a awgrymwyd imi yn ystod y dydd, ac wedi hynny. Yn gyntaf, anerchiadau'r llywyddion: rhagorol iawn; pobun o nodwedd hollol wahanol i'r lleill, a phobun yn ddiddorol iawn. Da y gwnaeth Mrs. Cledlyn Davies bwysleisio dau neu dri o bethau—mwy o sylw i'r plant; mwy o ffyddlondeb gyda'r paratoi; mwy o ofal yn y dewisiad o emynnau. Darllener yr anerchiad (ymddengys yn y rhifyn hwn). O natur atgoffhaol oedd anerchiad Dr. Evans, gan y mwyaf. A diddorol iawn ydoedd. Yr un mor ddiddorol oedd eiddo Dyfnallt yn yr hwyr. Arweiniodd ef ni'n ol i orffennol yr achos yn Heol Awst; a dug i'r gole rai ffeithiau anwybyddus i'r mwyafrif, os nad i'r oll, o'r gynnulleidfa. Sylwodd y bu un o'r enw Richard Lloyd, o Llwynrhydowen yn weinidog yn Heol Awst. Ail fab i Dafydd Llwyd, o Frynllefrith, a gweinidog Llwynrhydowen oedd hwn. Sefydlwyd ef

yn weinidog yn Heol Awst tua'r flwyddyn 1784, fel olynydd i'r Parch. Robert Gentleman (y cyfeiriodd Dyfnallt ato fel Sais a weinidogaethai ar Eglwys Gymraeg); parhaodd ei weinidogaeth hyd 1791.

* * *

Oedfa'r plant y gelwid yr un foreol; eithr bach iawn oedd nifer y plant—braidd y credaf bod yno ddegwm o blant ein cynnulleidfaoedd. Tybiaf bod o leiaf ddau reswm am hyn—pellter y ffordd i Gaerfyrddin, a diffyg paratoad. A roddir i'r plant y sylw dyladwy. Oes y plentyn yw hon; ni fu erioed y fath ddiddordeb yn y plentyn; sylweddolir pwysigrwydd y plentyn heddyw fel na wnaed erioed o'r blaen. Ydym ni'n effro i'n dyletswydd tuag at y dô sy'n codi yn ein heglwysi? Ofnaf ein bod yn codi cenhedlaeth ddi-gân. Haedda'r plant gymanfa iddynt eu hunain. A ellir dyfeisio rhyw gynllun i gywiro'r diffyg? Gadawaf yr awgrym heb ymhelaethu arno ymhellach na hyn—os yw ein hachosion i barhau, rhaid gofalu am y plant.

* * *

Pe dywedwn ragor am y Gymanfa, digon posibl ydyw y damsangwn ar droed rhywun neu arall. Gadawaf hi, felly, gyda'r un sylw a ganlyn: nid oedd y Gymanfa eleni yn deilwng o'i rhestru gyda'r Cymanfaoedd a fu. Cyfrifed pobun am hyn fel y mynno; eithr na rodder y bai ar yr arweinydd; rhaid troi i gyfeiriadau eraill am achosion y dirywiad.

* * *

Yn nhref Caerfyrddin a'r gymdogaeth y mae nifer luosog o wrthddrychau cyfoethog o ddiddordeb—i garwyr natur ac i'r hynafiaethydd. Yn gyntaf, saif y dref ynghanol un o lanerchau prydferthaf Cymru. O sylwi ar ddyffryn Tywi (dyweder) o'r *East Parade*, neu o ryw lecyn amlwg arall yn ymyl y dref, tybiaf nad yn hawdd y gwelir un olygfa mwy arddunol yn unman o'r byd na'r un a ymestyn o flaen y sylwedydd tua chyfeiriad Llandilo. Posibl ydyw y gellir dod o hyd i olygfeydd mwy rhamantus; ond am arddunedd, y mae dyffryn y Tywi ymron bod yn ddi-guro. Yna, mae yn y dref amryw wrthddrychau gwerth sylwi arnynt, megis, yr Hen Dderwen yn Heol y Prior; neu, feddfaen yr Esgob Ferrar yng Nghladdfa Eglwys Sant Petr, a losgwyd yn 1555, fel y tybir, yn y *Nott Square*; neu, y cofadeiladau—i'r Cadfridogion Nott a Picton; i'r milwyr a syrthiodd yn y "Rhyfel Mawr" (1914–18); neu—ond i ba ddiben yr ymhelaethaf?

* * *

Daeth i'm sylw, ddydd y Gymanfa, gofadail arall a apeliodd yn nerthol iawn ataf. O dramwyo hyd heolydd y dref, darfu imi fynd heibio i hen garchar y Sir—carchar gwag. Ie, *carchar gwag*: dyna'i brif ogoniant presennol—*ei fod yn wag*; a'r awdurdodau'n methu gwybod beth i wneud o honno. O ran hynny, gwag yw carcharau Cymru—ymron i gyd. Sieryd hyn yn uchel iawn am safle foesol Cymru—ffaith gwerth galw sylw Arglwydd Penybircwy ati, a phobun o'i dras a ymddengys fel yn ymbyfrydu yn y gorchwyl anhyfryd o fychanu Cymru. Na ddeled yr adeg pan fo eisiau ail-agor ein carcharau caeedig.

* * *

Ond—pam cofadail? Ai nid dyma beth ydyw? Codir cofadeiladau i—ryfelwyr. Pell oddiwrthyf fo'r duedd i fychanu gwerth gwasanaeth rhyfelwyr; er mai anghyfiawn a di-alw-am-danynt yw'r disgrifiad cywir o'r rhan fwyaf o ryfeloedd y gorffennol. Eithr ni ddylai'r ffaith olaf a enwyd leihau gwerth dewrder a gwrhydrau y rhai a fu â rhan ynddynt—o'r cadfridogion uchelaf i lawr hyd at y milwr cyffredin; yr olaf yn enwedig; a haeddant gydnabyddiaeth yn y ffurf o gof-adeiladau o rywfath. Eithr i ddosbarth arall o ddynion yr ydym yn ddyledus bod carchar Caerfyrddin (a charcharau eraill) wedi dod yn ddi-angenrhaid, megis, Stephen Hughes, o Feidrym, Ruffydd Jones, o Landdowror, ac eraill o'u bath. Ai nid priodol y disgrifiad o'r "carchar gwâg" fel cofadail i lafur yr "arderchog lu" hyn? Ffrwyth eu llafur hwy a'u holynwyr yw carcharau gwag Cymru.

* * *

Lleoedd i gosbi drwg-weithredwyr yw carcharau; eithr bu iddynt ddiben arall, tra gwahanol, rai oesau'n ol. Dyma ddyfyniad o lyfr y Dr. Thomas Rees, "Ymneilltuaeth yng Nghymru": "Yn gynnar yn 1660, torrodd ystorm o erledigaeth allan trwy Dde a Gogledd Cymru; a chyn diwedd y flwyddyn yr oedd bron yr oll o garcharau Cymru'n orlawn o Ymneilltuwyr." Bu nifer luosog yng ngharchar Caerfyrddin. Y mae hyn i gyd ymron bod yn anhygoel i ni heddyw. Darllenwn yr hanes; a dyna'r cwbl: ni chyffea'r hyn a ddarllenwn inni ond syniad gwan iawn am ddioddefiadau'r tadau—er ein mwyn ni.

* * *

Wedi imi ysgrifennu'r uchod, gwelais mewn papur dyddiol fod mudiad ar droed i droi'r carchar gwag at ryw ddiben defnyddiol. Un awgrym yw—ei wneud yn adeilad cyfleus at wasanaeth y Cyngor Sir. Awgrym da iawn yw hwn. Os y'i cerir i weithrediad, darparer rhan o honno i fod yn ystafell i garcharu ambell i Gynghorwr Sir anhydrin a gwastrafflyd. Awgrym arall—ei droi'n lyfrgell gyhoeddus. Ai ni ellid ei wneud yn fath ar Amgueddfa o bopeth a geidw'n fyw ein teimlad o ddyled i'r llu y cyfeiriwyd atynt eisioes—iachawdwyr Cymru; rhywfath ar *Valhalla* Gymreig?

Sylwedydd.

RHAI O HEN UNDODWYR Y RHONDDA.

[Gan y Parch. LL. MORGAN (W.), Pontardawe.]

Ni ddigwyddasom eto weld esboniad boddhaol ar y ffaith fod cynifer o hen drigolion a brodorion y Dinas a'r cylch yn Undodwyr o ran cred. Nid oedd gan yr Undodwyr gapel o un math yng Nghwm Rhondda, hyd yn ddiweddar iawn yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, fel os oedd yr hen frodyr a breswyliai yn y Cwm ddechreu y ganrif honno am foddion gras, y capel agosaf iddynt oedd "Yr Hen Dy Cwrdd," Aberdar, neu ynte gerdded i'r Bettws, yn ymyl Llangeinor, a chan nad oedd un "achos" ganddynt yn y Rhondda, nis gellid dweyd iddynt gael eu codi a'u magu oddiar yn blant yn y gred honno. Fe ddichon fod a fynno y ffaith ganlynol a hynny:—Yn y flwyddyn 1810, daeth Mr. Walter Coffin, o ardal Penybont ar Ogwy, i'r Dinas i chwilio am lo, cymrodd brydles ar y lle, a suddodd nifer o byllau a lefelau, a bu'n ffodus mewn dod o hyd i lo heb ryw lawer o drafferth na chost, gan fod y gwythiennau yn brigo allan mewn llawer man yn y Dinas, fel lleoedd eraill yn y Rhondda. Undodwr aiddgar a selog oedd Mr. Coffin, a naturiol yw casglu iddo ddylanwadu ar rai, fe ddichon yn hollol anymwybodol iddynt eu hunain, i goleddu yr un syniadau Diwynyddol ag ef ei hun. Ni charwn er dim awgrymu i Mr. Coffin ddylanwadu arnynt mewn ffordd annheg—yr oedd yn llawer gormod o foneddwr i wneud hynny—ar yr un pryd, fe ddichon fod a fynno y ffaith mai Mr. Coffin oedd perchen y gwaith lawer iawn i wneud a'r fod cymaint o Undodwyr yn y Dinas a'r cylch ddechreu y ganrif o'r blaen.

Synasom lawer pryd na byddai rhyw law fedrus wedi ysgrifennu hanes Undodiaeth yn y Rhondda, a hanes yr hen frodyr fu'n cerdded lawer tro, ac ar bob math ar dywydd, o'r Dinas a Phenygraig i'r Bettws. Nid dynion cyffredin oeddynt, ond dynion o argyhoeddiadau, ac uwchraddol mewn dysg a moes, yn Gymry pybyr, ac yn llenorion a beirdd, yn cymeryd diddordeb mewn Diwinyddiaeth—"Brenhines y Gwyddorau,"—ac wrth ddadleu cymaint a'r Trindodwyr ar brif bynciau y Grefydd Gristionogol, wedi tyfu yn gewri mewn dadl, heb fawr manteision boreol; yn oleu yn yr Ysgrythyrau, ac yn gyflym ac yn graff mewn dadl. Yr oedd eu gwareiddiad bron yn hollol Gymreig, gan nad oedd dylanwad y Saeson wedi treiddio ymhell i'r Rhondda yn y cyfnod hwnnw.

Y cyntaf i ni alw sylw ato yw,

DAFYDD OLIVER.

Un o'r Undodwyr cyntaf y mae gennym hanes am dano ym mhlwyf Ystradyfodwg oedd y Parch. Dafydd Oliver. Dywed "Rufus," yn ei lyfr diddorol, "Ystradiana," ei fod yn un o'r chwech cyntaf a fedyddiwyd gan y Parch. Maurice Jones Croes-y-Parc, yn y flwyddyn 1785; felly yr oedd yn un o'r Bedyddwyr cyntaf yn y Rhondda. Yn 1791, cafodd Dafydd Oliver ei neilldio i gyflawn waith y weinidogaeth, ac i fugeilio Eglwys Nebo (B.), yn Ystrad, a bu yn weinidog yno hyd 1802. Yn y cyfamser, newidiodd ei ddaliadau crefyddol, a rhai o athrawiaethau crefyddol, ac ymunodd a'r Undodwyr. Bu yn cyrchu am beth amser i Drenewydd a'r Notis, ac ar ol hynny bu yn weinidog ar "Yr Hen Dy Cwrdd," yn Aberdar, am tua phum mlynedd; symudodd wedi hyn i Gellionen, lle bu farw tua'r flwyddyn 1840, a chladdwyd ef ym mynwent

Eglwys Llangyfelach. Gellir tybio mai y prif reswm gan Dafydd Oliver dros ymadael a'r Bedyddwyr oedd methu cydfynd ag Uchel-Galfiniaeth y cyfnod hwnnw, oherwydd dywed "Rufus" ei fod yn pregethu yn Arminaidd iawn. Yr oedd yn ddyn o allu ac o argyhoeddiad.

Evan Davies *(Ieuan Ab Dewi)*.

Ganwyd ef yn Mhenygraig yn y flwyddyn 1800. Meddyg ydoedd wrth ei alwedigaeth; yr oedd yn orwyr i'r Parch. Henry Davies, y gweinidog cyntaf ar Eglwys Annibynol y Cymmer, Rhondda, a'r gweinidog Anghydffurfiol cyntaf a fu yn y Rhondda. Undodwr selog oedd Evan Davies, yn dipyn o lenor, ac ysgrifennai o dan yr enw "Ieuan Ab Dewi." Cyhoeddodd un rhifyn o'r "Meddyg Teuluaidd." Cymerai ddiddordeb mawr mewn pethau crefyddol, ac yn arbennig mewn pynciau Diwinyddol, ac yr oedd yn hyddysg yn ei Feibl

Bu farw yn 1850, yn 50 oed. Yr oedd yn fab i feddyg, a chododd ddau fab yn feddygon—un ohonynt oedd Dr. Henry Naunton Davies, Cymmer, yr hwn fu farw yn 1900, yn 72 mlwydd oed. Yr oedd yntau yn ffafrio syniadau Undodaidd, er nad oedd mor selog yn y gred honno a'i dad. Dyn boneddigaidd oedd Dr. Henry Naunton Davies, yn feddyg o'r radd flaenaf, ac yr oedd ganddo y *practice* mwyaf yng Nghymru fel meddyg. Bu y Dafisiaid yn amlwg iawn yng Nghwm Rhondda am yn agos i ddwy ganrif. Y cyntaf a ddaeth i fyw i'r Cwm oedd y Parch. Henry Davies, yn y flwyddyn 1738, yn weinidog gyda'r Annibynwyr yn y Cymmer. Bu iddo fab, Samuel, amaethwr; cododd Samuel ei fab, Henry, yn feddyg; cododd Henry ei fab, Evan (Ieuan Ab Dewi), yn feddyg, a mab Ieuan Ab Dewi oedd Dr. Henry Naunton Davies, a mab i'r olaf oedd Dr. Evan Naunton Davies a fu farw ychydig flynyddoedd yn ol yn y Creigiau, heb fod nepell o Gaerdydd. Gwelir felly i'r Dafisiaid gymeryd lle amlwg iawn fel meddygon yn hanes Cwm Rhondda am ugeiniau o flynyddoedd.

Llewelyn Jones.

Gelwid ef gan ei gyfoedion yn Llewelyn Bili Shon, a Llewelyn o'r Cwrt. Saer coed oedd ef wrth ei alwedigaeth, ond tua therfyn ei oes bu yn cadw fferm y Cwrt, ar Donypandy, heb fod nepell o'r lle a elwir heddyw yn Pandy Square. Undodwr brwdfrydig iawn oedd o ran ei gredo, ac yr oedd yn gyfaill mynwesol i Dr. Evan Davies, a enwyd yn flaenorol. Ni chafodd ef, mwy na thrigolion eraill y Rhondda'r cyfnod hynny, nemor ddim addysg foreol, ond trwy ymdrech a dyfalbarhad, cyrhaeddodd fesur helaeth o ddiwylliant, yr oedd yn gartrefol yn ei Feibl, ac yr oedd yn lenor a bardd o gryn deilyngdod. Dygai fawr sêl dros ei gredo, a bu llawer gornest rhyngddo ef a Thrindodwyr y Dinas a'r cylch—ambell waith y Trindodwyr, pan mewn dadl, fyddai yn mynd a'r maen i'r wàl, a phryd arall Llewelyn o'r Cwrt ai a'r dorch Bu cryn dipyn o ddadleu yn y dyddiau hyn rhwng y ddau ddosbarth a enwyd, nes peri i'r ddwy ochr ddarllen llawer, a meddwl mwy, a dod yn gryfion mewn dadl, ac yn beryglus fel dadleuwyr. Cyhoeddodd ef a Dr. Evan Davies, cyd-rhyngddynt, lyfryn yn erbyn y Parch. John Jones, Rhydybont (gynt o Langollen). Dr. Evan Davies ysgrifennodd y Rhyddiaeth, a Llewelyn Jones y Penillion, sydd yn y llyfr. Gwell yw rhoddi testyn y llyfr yn llawn, sef y darn barddonol ohonno — "Unigyddiaeth Bodol, Personol, a Meddyliol y Bod o Dduw, yn cael ei amddiffyn mewn nifer o Benillion, gan wahanol awdwyr." Ysgrifennodd y penillion yn Awst, 1843, er na chyhoeddwyd y llyfr hyd 1846. Maent yn 196 o benillion, pedair llinnell, ar fesur "Triban Morganwg"; gwelir eu

bod yn 784 o linellau, ac mor hir ag yw ambell bryddest y dyddiau hyn. Mae'r penillion yn hynod lithrig, ac mae'n amlwg bod yr awdur yn hen gyfarwydd a chanu ar fesur "Trib'n Morgannwg," er bod llawer o eiriau gwneud ganddo, megis "anfodoliaeth," "galluadwyolrwydd," "anwneuthuradwyolion," "bodoliaethau," a llu eraill. Yr oedd beirdd y pedwaredd-ganrif-arbymtheg, gydag ychydig o eithriadau, yn dioddef yn drwm oddiwrth y clefyd hwn, sef gwneud gair os nad oedd un i gael wrth law yn ateb y diben. Ysgrifennodd eraill benillion i'r llyfr uchod, heblaw Llewelyn Jones, sef Evan Llewelyn, Jenkin Evans, a William Jenkins. Tuedda Llewelyn Jones i syrthio i bruddglwyfedd, ac ar adegau felly deuai i lawr o Donypandy at Dr. Evan Davies, i Benygraig, ac ni byddai Dr. Evan Davies fawr amser cyn dod ag ef i'w le. Daeth i lawr un diwrnod i fynwent Soar (B.), Penygraig, i weld a oedd ei fedd yn iawn, oherwydd yr oedd wedi gorchymyn tori ei fedd pan oedd yn fyw; aeth gartref i'w fferm, a bu farw drannoeth. Yr oedd hyn yn y flwyddyn 1846.

Evan Llewelyn a'i Fab.

Dau Undodwr eiddgar a brwdfrydig dros eu cred oedd Evan Llewelyn, o fferm y Maerdy, Cwm Rhondda Fach, a'i fab, Evan Llewelyn bach, neu fel y gelwid ef gan ei gyfoedion, Evan Llewelyn y Telynwr, am ei fod yn gampwr ar ganu'r delyn. Cafodd yr olaf well addysg na'r cyffredin yn y dyddiau hynny, am ei fod yn unig blentyn, a'i dad mewn amgylchiadau clyd. Dysgwyd ef i ganu'r delyn ac i gyfansoddi penillion telyn, fel yr oedd yn fardd a cherddor. Meistrolodd y cynghaneddion, a gallai ganu mewn gwahanol fesurau. Cyhoeddodd yn 1831 gyfrol fechan o farddoniaeth, a elwid "Y Fronfraith," sef casgliad o awdlau, cywyddau, englynion, a chaniadau ar amryw fesur. Y mae yn y gyfrol fechan hon (sydd yn lled brin) rai darnau da iawn; bu ei gân i'r "Ceiliog Gwyn" yn adnabyddus iawn i amaethwyr y Rhondda yn agos i ganrif yn ol. Yr oedd Evan Llewelyn bach yn briod a Shan, yr hon fu'n gweini am flynyddoedd yn nhy "Alaw Goch," sef tad y Barnwr Gwilym Williams, a bu iddynt amryw blant, ac y mae llawer o'u hwyrion a'u horwyrion yn aros yn y Rhondda hyd heddyw. Fel y dywedasom, Undodwyr mawr oedd y tad a'r mab, ac yn selog dros eu daliadau; yr oeddynt yn ddynion goleu a thalentog, ac yr oedd llawer o dalent yn eu disgynyddion.

Jenkin Evan.

Undodwr mawr arall, fu yn byw am rai blynyddoedd yn y Dinas, oedd Jenkin Evan. Ganwyd ef ar Donyrefail yn y flwyddyn 1810, a magwyd ef gyda'r Methodistiaid Calfinaidd. Yr oedd yn byw ar Donyrefail, pan oedd Jenkin Evan yn ddyn ieuanc, un o'r enw Rees Evans, ac yn cadw ffatri. Brodor ydoedd o Sir Gaerfyrddin, ac yn frawd i'r Parch. Thomas Evans (Thomas Glyn Cothi). Undodwr oedd Rees Evans, fel ei frawd Thomas, a dywedir ei fod yn ddyn galluog, yn ddarllenwr mawr, ac yn berchen llyfrgell dda; yr oedd yn selog dros ei gred, er na wthiai ei syniadau ar neb. Cymeriad dilychwyn oedd, yn ol tystiolaeth pawb a fu mewn ymdrafodaeth ag ef. Dywedir fod popeth a ddeuai allan o ffatri Rees Evans o'r ansawdd oreu, ac yr oedd yn fawr ei barch gan bawb. Daeth Jenkin Evan o dan ddylanwad Rees Evans, a'r diwedd fu iddo adael y Methodistiaid Calfinaidd, a bu yn Undodwr mwyach hyd ei fedd. Dyn o ddiwylliant mawr y dyddiau hynny oedd ef, ac o feddwl rhesymegol, ac yn ychwanegol at hynny yr oedd wedi darllen yn eang ac yn fanwl. Gadawodd Donyrefail, a symudodd i fyw i'r Dinas, ac efe oedd ysgrif-

ennydd gwaith y Dinas, o dan Mr. Walter Coffin ; bu yn y swydd hon am rai blynyddoedd, yn fawr ei barch gan bawb yn yr ardal, a phan ymadawodd a'r Dinas, aeth i fyw i Flaenllechau, Cwm Rhondda Fach, ac efe oedd yn edrych ar ol buddiannau teulu Blaenllechau, mewn perthynas a *Royalties* y pyllau glo oedd wedi eu suddo ar dir Blaenllechau. Tua therfyn ei oes, efe oedd yn cadw Llythyrdy Blaenllechau, ac yno y terfynodd ei oes ym mis Mawrth, 1885, yn 75 mlwydd oed. Yr oedd yntau yn llenor da ac yn fardd purion, ond ni roddodd nemor ddim amser i farddoniaeth, ond i lenyddiaeth. Ei brif orchestwaith oedd cyfieithu "Coombe's Constitution of Man" i'r Gymraeg. Yr oedd hwn yn waith enfawr, yn gofyn am lawer o ddygnwch, o allu, ac o ddyfalbarhad, gan fod cymaint o eiriau anarferedig ac o eiriau dieithr i'r Gymraeg, a dichon iddo orfod bathu llawer o eiriau hefyd, gan fod llawer o bethau yn y llyfr yn hollol ddieithr i'r Gymraeg. Y mae'r llyfr yn glod i'w ben a'i galon. Bu mynd mawr ar lyfr Coombe un amser yn y Dinas a'r cylch ; yr oedd yna amryw o frodyr yn y Dinas yn y dyddiau hynny oedd wedi meistroli y llyfr, a Coombe oedd eu hawdurdod ar lawer pwnc—bron nad oedd mor anffaeledig iddynt a'r Beibl—ond nid oes nemor neb yn yr oes hon yn gwybod am dano. Gwnaeth Jenkin Evan wasanaeth mawr yr adeg honno, trwy ei gyfieithu i'r Gymraeg, ac i fod yn ddealledig i'r Cymro uniaith. Yr oedd Jenkin Evan yn Undodwr goleu, ac yn ddadleuwr cryf dros ei gred, yn ddyn parchus, uwchraddol ei feddwl a'i foes. Nid oes neb o'i ddisgyniddion yn trigiannu yn y Rhondda heddyw.

Daniel Thomas

Dau ddyn adnabyddus a dylanwadol yn y Dinas a'r cylch, oedd yn Undodwyr o ran cred, oedd Daniel Thomas, arolygwr gwaith y Dinas (o dan Mr. Walter Coffin), a'i fab, Daniel Thomas (Dan Bach). Gwr o Rhyd-yr-Helyg, ger Nantgarw, yn ymyl Caerdydd, oedd Daniel Thomas, a daeth i fyny i'r Rhondda i arolygu gwaith y Dinas ; bu farw yn 1872, yn 61 mlwydd oed. Dyn galluog iawn oedd ei fab (Dan Bach)—efe oedd perchennog pyllau y Dinas a Dinas Isaf. Nodweddid ei fywyd â llawer o feiddgarwch ac anturiaeth, ond ysywaeth, anturiodd ormod, oherwydd pan fu tanchwa ym mhyllau Penygraig, ar fore Sabboth, Ionawr 27ain, 1884, aeth Daniel Thomas a dau swyddog arall gydag ef i lawr i'r pwll i chwilio am y dynion oedd yno, ac aethant yn rhy bell, a chafwyd y tri yn ddiweddarach yn y dydd, wedi mygu. Nid oedd ond 35 mlwydd oed. Bu hyn yn golled amhrisiadwy i'r ardal o safle fasnachol. Dyn uniawn a thêg oedd ef yn ei ymdrafodaeth a'i weithwyr, a'r parch mwyaf iddo gan ei weithwyr. Fel y dywedasom, yr oedd ef, fel ei dad, yn ei ddaliadau Diwynyddol, yn Undodwr i'r carn.

Evan Thomas.

Amaethwr oedd Evan Thomas, yn byw yn fferm Carncelyn, ar lechwedd y mynydd, ac ar war Penygraig. Yr oedd yna nifer o bethau yn nodweddiadol o honno ef. Yn y lle cyntaf yr oedd yn Benofydd (*Phrenologist*), os oes rhyw goel i'w roi ar y wyddor honno—yr oedd Evan Thomas yn berffaith hyddysg ynddi, a darllenodd bennau ugeiniau o bobl o bryd i'w gilydd, gyda llawer iawn o gywirdeb. A barnu Evan Thomas yn arwynebol, nid oedd yn llawer o grefyddwr ; credai llawer o bobl, na ddaeth i gyffyrddiad agos ag ef, ei fod yn anffyddiwr ; nid oedd hynny yn gywir. Fel nifer ereill o'i gyfoedion yn y cylch, Undodwr ydoedd, a mynychai yn awr ac eilwaith gapel yr Annibynwyr yn Nhrewilliam, am nad oedd un capel Undodwyr yn nes nag Aberdar, neu'r Bettws, yn ymyl Llangeinor. Hoffai farddoniaeth, a

dysgodd brydyddu ei hunan ; gwelsom rai benillion o'i waith, ac mae'n dra thebyg y gallasai ragori yn y cyfeiriad hwnnw, pe wedi rhoi ei amser i farddoni. Bu ei deulu yn byw am genhedlaethau yn y fferm honno, ac y mae ei ddisgynyddion yno heddyw. Perchenogai ei fferm —yr oedd yn Uchelwr *(Freeholder)*, ond fel llawer hen Gymro arall, ni ddeallodd erioed werth ei dir, a bod digonedd o lô o dan ei fferm, fel y gwerthodd ei hawlfraint i'r glo oedd o dan ei dir, sef y *mineral rights*, i ryw Sais cyfrwys, am y swm bychan o £300, a thrwy hynny collodd ef a'i ddisgynyddion ugeiniau o filoedd o bunnoedd mewn *Royalties*. Ni fu yn ddoeth o gwbl yn ei genhedlaeth ; gwell oedd ganddo amaethu ei dir, "darllen pennau, a barddoni," na bargeinio a breuddwydio am gyfoeth. Bu hyn yn golled arswydus i'w deulu, oherwydd mae'r pyllau wedi codi glo, ac yn parhau i godi peth, oddi tan ei dir ef am dros drigain mlynedd. Dyn deallgar, goleu, caredig, a Chymro pybyr, oedd Evan Thomas, Carncelyn. Ymadawodd a'r fuchedd bresennol tua phum mlynedd a deugain yn ol.

Carwn ddweyd gair cyn terfynnu y lith hwn am un arall, er ei fod yn perthyn i genhedlaeth fwy diweddar na'r rhai uchod, am fod gennym adnabyddiaeth bersonol o hono ef, sef (y diweddar erbyn hyn)

DAVID WATKINS.

Brodor oedd ef o blwyf Llanwyno ; symudodd i Benygraig i fyw ychydig dros hanner can mlynedd yn ol, a chadwai "yard lifio" yn ymyl gorsaf y G.W.R. ym Mhenygraig. Undodwr oedd i'r carn, ond gan nad oedd lle o addoliad yn gyfleus gan yr Undodwyr, bu am beth amser yn mynychu ac yn aelod gyda'r Annibynwyr ; ond wedi i'r Wesleaid godi capel yn y lle bwriodd ei goelbren gyda'r enwad hwnnw, a bu yn ffyddlon a gweithgar am flynyddoedd yn Seion, Trewilliam, hyd nes i'r Undodwyr godi capel yn Clydach Vale, ac ymaelododd yn uniawn yn y fan honno, a bu'n ffyddlon hyd ei fedd, er bod ganddo ffordd lled faith i'r capel. Dywedai wrthym ryw dro, pan yn siarad ag ef, mai darllen gweithau Dr. Priestley a'i argyhoeddodd ef i'r ffydd Undodaidd. Nid oedd byth yn gwthio ei syniadau ar neb, ac nid ydym yn credu bod neb o'r Wesleaid wedi breuddwydio ei fod yn Undodwr o ran cred. Da gennym gael y cyfle hwn i ddwyn tystiolaeth i'w gymeriad—yr oedd yn ddyn rhagorol, cymwynasgar a charedig, ac yn uniawn yn ei holl drafodaeth â phobl, ac yn rhyddfrydwr trwyadl, parchus gan bawb yn yr ardal. Bu farw ychydig flynyddoedd yn ol, yn fawr ei barch gan bawb a'i hadwaenai.

Hoffwn ddweyd wrth derfynnu yr erthygl hon nad yw'r ysgrifennydd presennol yn perthyn i'r Undodwyr, ond yn un sy'n cymeryd diddordeb yn hanes crefydd yn y Rhondda, ac yn edmygu dynion sydd yn sefyll, ac wedi sefyll, dros eu hargyhoeddiadau, beth bynnag eu credo. Mae i'r ysgrifennydd ddiddordeb ynddynt oherwydd, pan yn blentyn ac yn fachgen yn y Cwm hwnnw, iddo glywed llawer o sôn am danynt, ac iddo adnabod a chael ei gyd-fagu a'i disgynyddion.

Dichon nad yw'r esboniad a gynygir ar ddechreu'r erthygl hon yn ddigon i gyfrif paham oedd yna gynnifer o hen drigolion y Rhondda yn Undodwyr, oherwydd mae yn dra thebyg fod rhai ohonynt wedi mynd yn Undodwyr yn eu gwrthdystiad yn erbyn Uchel-Galfiniaeth, fel Dafydd Oliver, ac eraill drachefn wrth gymdeithasu ag Undodwyr a darllen llyfrau Undodaidd. Heddwch i'w llwch.

Y RHOSYN GWYN.

(Gan ANTHROPOS).

I.

Y mae tyfu rhosynnau yn gelf gain Nis gall dyn *gyeu* rhosyn, ond y mae'n abl i feithrin *math* newydd, ac y mae hynny yn gamp ym myd y garddwr. Ac os y llwydda, caiff y rhosyn ac yntau ryw fath o anfarwoldeb. Eleni, ennill-wyd y tlws aur yn Arddangosfa Flodau Llundain gan arddwr o ganol gwlad, a hynny am *rosyn gwyn* oedd yn newydd yn ei ffurf, ac yn gwasgar pêr-arogl fel eiddo'r mwsg. Yr oedd eraill yn rhagori yn eu ffurf, ond gan y rhosyn hwnnw yr oedd y "pêr-aroglau drud."

II.

Aed i chwilio hanes yr ardd lle y tyfodd y rhosyn gwobrwyedig. Yr oedd cynrychiolwyr y gerddi pen-defigaidd - gerddi'r brenin a'r duciaid—yn y gystadleuaeth, ond yr oedd y rhosyn "buddugol" wedi tyfu mewn gardd seml, ac ni wyddai y cyhoedd hyd hynny ddim am ei lleoliad. Nid oedd enw'r pentre agosaf ati ar y map. Yr oedd ei enw ym mhrif newyddiaduron y deyrnas fore drannoeth. Cafodd ei ddyrchafu i gyhoeddusrwydd ar gyfrif y rhosyn gwyn.

III.

Damwain, ebe rhywun. Tipyn o ffawd nas gellid ei hesbonio. Nage. Yr oedd yn ŵr diwylliedig, er fod cylch ei lafur yn gymharol fychan. Ond yr oedd wedi bod yn meddwl, ac yn gwneud arbrofion er's blyn-yddoedd. Meddai ddelfryd clir. Yn ei feddwl ei hun, yr oedd wedi *gweled* y rhosyn cyn iddo dyfu. Gwyddai am y cyfuniad o liw a pherarogl yr oedd yn awyddus i'w gael. Aeth aml i dymor heibio, a llawer arbrawf yn fethiant. Ond ni ddigalonodd y garddwr hwnnw. Daliodd ati yn ddistaw. "Celfydd, celed ei arfaeth," ebe'r hen ddiareb. Ac un dda ydyw ym mhob cylch o feddwl a bywyd. Nid ydyw y celfydd a'r doeth yn hysbysebu ei waith nes iddo ei orffen. Ni wyddai pobl y pentre gwledig am uchelgais y garddwr oedd wedi breuddwydio i gyfeiriad y rhosyn gwyn. Gwydd-ent ei fod yn trin ei ardd, ac yn gwylio ei chynnyrch o fore i hwyr. Ond, eleni, gwelodd ei freuddwyd wedi ei sylweddoli. Mentrodd i'r gystadleuaeth fawr â phenaethiaid gerddi Prydain, a phan welodd y beirniaid y rhosyn hwnnw, ac arogli ei sawr, nid oedd amheuaeth yn eu meddwl am y dyfarniad. Ennillodd y *tlws aur*. Camp y garddwr oedd cynnyrchu y rhosyn gwyn.

IV.

Ac mewn ystyr arall, dyna'r gamp mewn cylchoedd gwahanol. Cyfnod yr ysgolor a'r ieithydd clasurol ydyw hwn. Y mae delw ac argraff yr athrofa ar gyfansoddiadau llwydd-iannus y dydd. Anodd i'r sawl na chafodd y manteision hyn ydyw ennill mewn cystadleuaeth fydd wedi tynnu sylw y "gŵr gradd." Ond y mae hanes y rhosyn gwyn ym mhrif arddangosfa flodau'r deyrnas, yn awgrymiadol, a dweyd y lleiaf. Gall y peth ddigwydd yng nghalon'r gân. Ond nid ar ddamwain y daw. Rhaid parotoi'r ffordd trwy lafur a meddylgarwch. Nid "cicaion" ydyw y rhosyn gwyn. Dyna wendid llawer ymgeisydd, hen ac ieuanc Tybied mai pethau wedi eu hysgrifennu mewn cyffro a thanbeidrwydd ydyw cyfansodd-iadau llenyddol. Dichon fod rhai

o ymgeiswyr "buddugol" y blynyddau a fu wedi lledaenu yr ofergoel hon. Clywsom rai o'r cyfryw yn ymffrostio yn eu dawn i gynyrchu pethau ar fyr amser. Ymffrostia ambell un iddo gyfansoddi dau neu dri chant o linellau mewn noson. A chaniatau fod y peth yn llythyrennol wir, pa le y maent erbyn heddyw? Nid felly y daw pethau sydd yn aros. Rhaid llafurio yn ddistaw a chaled. Yr oedd y gairddwr a ennillodd yr anrhydedd yn Llundain wedi gwneud hynny. Aeth ei ymgais yn ofer, ambell dro. Nid oedd y rhosyn yn cyrhaedd y perffeithrwydd y gwyddai ef am dano. Ofer fuasai anfon y cynyrch amherffaith i'r arddangosfa. Ond pan welodd y *cyfaniad*, anodd ei gael—y lliw a'r persawr yn gogoneddu eu gilydd, nid oedd yn petruso wed'yn. Ac nid oedd petrusder lleiaf yn y beirniaid. Yr oedd ei *rosyn gwyn* wedi cyrhaedd i'w frenhiniaeth.

V.

Y mae un o'n llenorion pennaf wedi mabwysiadu'r gair "blŵm" fel gair Cymraeg. Un o briodoleddau y rhosyn ydyw y "blŵm," ac y mae eisiau hwnnw mewn cân. Rhyw ireidd-dra dymunol, yn datguddio y nodd cudd; rhyw swyn sydd yn dotio'r llygad, ac yn cludo diddanwch i'r galon. Un felly oedd y rhosyn gwyn:—"It was a flower of beautiful shape, having a rich musk perfume. A regret of modern days has been that men have produced beautiful blooms, but in so doing they have lost the fragrance of the rose. But here was a bloom of charming shape, and rich scent which delighted the judges and secured the gold medal."

VI.

Dyna'r gyfrinach. Yr oedd perffeithrwydd y rhosyn yn gyfuniad o ddwy elfen—blŵm a pherarogl; ffurf a naws hudolus. Ac felly gyda cheinion llenyddiaeth: y maent yn cyfuno ffurf a chyfaredd. Rhoddir pwys mawr yn y dyddiau hyn ar y *ffurf*, ac y mae prydferthwch yn perthyn i hwnnw. Nid ydyw yr hyn sydd aflunaidd yn greadigaeth o gwbl. Trybleth ydyw. Dyna ddiffyg rhan fawr o farddoniaeth y ganrif ddiweddaf. Yr oedd ynddi gyflawnder o ddefnyddiau, ond heb eu gosod mewn ffurf brydferth ac atdyniadol. Ond yr oedd ambell i *rosyn gwyn* yn ymddangos yn ei dro. Dichon iddo ddod yn y ffurf o emyn neu gân. Ond yr oedd y gyfaredd yno—y blŵm a'r perarogl. Dichon fod yr hyn a ddywed y feirniadaeth Seisnig yn gymhwysiadol at lenyddiaeth. Gellir cynyrchu *ffurfiau* newyddion a phrydferth ar draul colli y perarogledd.

VII.

Meddylier am un o'r ffurfiau yng nghylchoedd barddoniaeth. Yr enw a roddir arno ydyw'r Soned. Y mae'n hen fesur ym marddoniaeth Lloegr, ond yng Nghymru, rhyw "newyddian yn y ffydd" ydyw. Ond y mae *mynd* arno mewn cystadleuon barddonol. Hwyrach fod mwy o fynd arno nag sydd o fynd ynddo! Cydnabyddir ei fod yn anodd, ac yn galw am law fedrus a chyfarwydd. Ond, ar y cyfan, ychydig o naws sydd ar y rhosyn hwn Y mae'r ffurf yn gywrain, ond pa le y mae y perarogl? Am y rheswm hwn, nid ydyw'r Soned wedi cyrhaedd rhandir yr englyn a'r delyneg.

VIII.

O ble y daw y rhosyn gwyn? Gellid disgwyl mai o erddi'r academi, sydd yn cael eu dyfrhau gan ddyfroedd Helion, a gwlith Castalia. Ond, hwyrach, y caiff hanes y rhosyn gwyn ei ail adrodd ar randir llen. Nid o erddi Windsor na'r Kew y daeth hwnnw, ond o ardd fechan yng nghanol y wlad. Dichon hynny yn hanes y delyneg a'r gân. A phan y daw, bydd y ddwy elfen wedi eu cydblethu yn berffaith—y blŵm a'r perarogl. Dyna fydd y Rhosyn Gwyn.

"Y pethau hyn sydd mewn alegori."

ANERCHIAD DRADDODWYD GAN MRS. CLEDLYN DAVIES YN Y GYMANFA GERDDOROL.

Amser dedwydd a rhydd o ofalon a gofidiau ydyw ieuenctid, ac y mae'n amlwg mai'r ffordd a ddarparodd Duw i fynegi llawenydd ydyw trwy ddawns a chân. Pan ddelo rhywbeth llon a hapus i fywyd y llwythau anwaraidd sydd yn byw yn Neheu Amerig ac yn Affrica, ceisiant fynegi eu llawenydd trwy ddawnsio a chanu, er mai llymrig, ac aflafar yn aml, a fydd nodau a geiriau eu cerdd. Yn rythm eu cân y bydd cynhyrfiad eu hysbryd yn cael mynegiant.

Yn y Dwyrain, datblygodd cerddoriaeth yn llawer cynt nag ymhlith y llwythau a nodais, a dywed Plato mai hi ydyw hanfod trefn, a'i bod yn arwain i bopeth sydd dda, uniawn a hardd. Cawn hefyd fod ein cenedl ni, sef y Brythoniaid, ar y blaen mewn cerddoriaeth yn gynnar iawn yn ei hanes, can's dywed Gerallt Gymro, Archddiagon Tyddewi yn 1185.

"Nid yw'r Brythoniaid yn canu caneuon mewn unllais, fel trigolion gwledydd eraill, ond mewn gwahanol leisiau."

Gan fod cerddoriaeth yn sianel i ollwng allan bob math ar deimladau, y mae felly yn un o'r cyfryngau mwyaf effeithiol i gyrraedd calonnau dynion. A chanddi allwedd i fynwesau dynion, bu erioed yn un o lawforynion goreu Crefydd, ond fel pob morwyn arall, ni choronir ei gwaith â llwyddiant, oni chaiff ddefnyddiau pwrpasol at ei gorchwyl, ac amser i ymarfer ac ymbaratoi.

Ofnaf mai yn y mater o baratoi y mae gwendid mwyaf ein Cymanfa Ganu ni, fel Undodiaid. Ofnaf fod llawer o aelodau ein capeli yn peidio â mynychu'r Ysgol Gân, cyn dod i'r Gymanfa. Ers rhyw naw diwrnod yn ol, mewn Cymanfa Pwnc, lle y cenid rhai o'r tônau o'r rhaglen hon, mi sylwais fod rhai yn solffaio'r tônau. Diffyg ymdrech, diffyg sêl, sydd yn cyfrif am bethau fel hyn, ac y mae lle i ofni y bydd safon y gerddoriaeth yn ein Cymanfa syrthio, oni ddiwygier yn y mater o ymbaratoi. Fe all arweinydd gwych a medrus (fel Mr. Gwilym R. Jones) wneuthur llawer iawn i gynnal safon ein Cymanfa, ond ofer ydyw disgwyl ar unrhyw arweiniad dynnu allan geiriau beraidd o gôr na aeth trwy ddisgyblaeth ymbaratoad.

Carwn ddweyd gair hefyd ynglyn a'r emynau a osodir i'r plant i'w canu. Ofnaf y credir yn rhy aml y gwna unrhyw eiriau'r tro i blant i'w canu, ond credaf finnau ei bod yn fwy pwysig cael meddyliau tlws mewn geiriau syml i'r plant nag i'r bobl mewn oed; bydd y geiriau a ddysg y plant yn byw yn eu cof yn hir, a dylent fod o werth arbosol.

PRIODAS.

MEHEFIN 27, yng Nghapel Alltyblaca, gan y Parch. L. Williams, a cherbron y Cofrestrydd, Mr. D. Evans, Llanybyther, unwyd mewn priodas Mr. John Charles Jenkins, Tancoed, Llanwenog, â Miss Mary Thomas, merch hynaf Mr. a Mrs. Thomas, Pensarn Cottage, Cwrtnewydd. Dymunwn ar fod eu bywyd yn un llwyddianus a dedwydd.

MARWGOFION.

EBRILL 13, Margaret Ellen Jones, annwyl faban William H., a Jane Jones, No. 1, Cwmanne, Llanbedr. Claddwyd yng Nghapel y Groes.

EBRILL 18, yn 68 mlwydd oed, bu farw Anne Jones, Plasnewydd, Cellan, gynt o'r Lanlas, wedi cystudd cymharol fyr. Yr oedd wedi chaethiwo i'w gwely, ond ni freuddwydiodd odid neb fod y diwedd yn agos. Benyw dawel, siriol, a chalon gariedig ydoedd, a hir y gwelir ei lle yn wag yng Nghapel yr Erw, ac yn yr ardal. Claddwyd hi yng nghladdfa'r teulu yng Nghaeronen y dydd Mercher dilynol. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan weinidog Llangybi; pregethwyd yn y capel gan ei gweinidog, y Parch. J. D. Jones, a gwasanaethwyd lan an y bedd gan weinidog Caeronen. Gadawodd blant a pherthynasau ereill mewn galar ar ei hol

EBRILL 19, bu farw un o hen Undodwyr Cwm Rhondda, sef, William Edwards, Painter, 93, East Road, Tylorstown, yn 75 oed. Claddwyd y dydd lau canlynol, ym Mynwent Gyhoeddus Aberdar. Yr oedd yn enwog yn y gymdogaeth fel llenor, a chafwyd llawer darn o farddoniaeth dan yr enw *Peirianydd*. Yr oedd hefyd yn un o'r ychydig sydd ar ol o hen aelodau Cor Caradog, a theimlai ddiddordeb neillduol ymhob mudiad dyngarol a llesol. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. R. Dennis. Dymunir pob bendith a chysur i'r plant yn eu gofid a'u hiraeth

EBRILL 24, yn 30 oed, bu farw Mr. William Williams, o Heol y Bont, Llanbedr, yn nhŷ ei dad yn Creigiau, Cwmanne, Llanbedr, wedi cystudd maith. Bu'n brwydro dros ei wlad, a chollodd aelod, a hwyrach wedi'r cyfan fod effaith y Rhyfel Mawr wedi amharu'i gyfansoddiad. Bachgen cywir a diddorbyn wyneb ydoedd. Yr oedd wedi llanw dwy swydd er ei ollwng o'r fyddin, ond rhyw ddeuddeng mis yn ol canfyddid fod y cyfansoddiad yn gwanhau, ac ei fod yntau yng ngafaelion angau Gweiniwyd arno gan ei briod ieuanc, a thrist oedd yr ysgaru wedi dwy flynedd o fywyd hapus. Claddwyd ym mynwent Eglwys Llanfair, y Parch. T. O. Williams, M.A. yn gwasanaethu gyda chynorthwy caredig y Parch. D. Jones, (B.), a L. Williams yn y tŷ, a'r Ficer a'r Parch. D. Jones yn yr Eglwys ac ar lan y bedd. Gadawodd weddw ieuanc, tad, brawd a pherthynasau ereill i wylo'u colled.

MAI 6, yn Ysbyty St Thomas, bu farw Evan Jones Jenkins, 208 Lower Road, Rotherhithe, yn 49 oed. Mab ydoedd i'r diweddar Benjamin ac Anna Jenkins, Tynberth, ger Cribyn, lle y mae brawd a chwaer iddo yn byw yn awr; ac yn ychwanegol, y mae dau frawd a dwy chwaer arall—oll yn byw yng nghymdogaeth Cribyn. Aeth i Lundain o gwmpas ugain mlynedd yn ol, a bu am rai blynyddoedd yn dilyn ei alwedigaeth fel gof; yna, rhoddodd ei alwedigaeth i fyny, a chychwynodd yn y fasnach laeth, a bu'n llwyddiannus iawn ynddi A barnu wrth yr olwg allanol, yr oedd o gyfansoddiad cryf; ond cafodd yr anwydwst y gaeaf diweddaf, ac effaith hynny fu'r achos o'i farwolaeth. Gadawodd briod ac amryw o blant, tri brawd a thair chwaer, a nifer luosog o berthynasau agos, mewn galar o'i golli. Claddwyd ei weddillion ar y 12fed yng Nghladdfa Manor Park, y Parch. Mr. Edwards (M.C.), Falmouth Rd., yn gwasanaethu.

MAI 18, yn 57 oed, bu farw Tom Jones, Cwmanne Tavern, Llanbedr, wedi dihoeni'n hir. Yr oedd wedi gwasanaethu'i frenin a'i wlad yn hir, ac wedi ei ddod gartref gellid meddwl ei fod yn teilyngu seibiant hir, ond buan y gwelid arwyddion fod rhywbeth wedi gafael ynddo. Bu yn Iechydfa Tregaron ond i ddim pwr-

pas, a daeth adref i farw. Claddwyd ym mynwent Capel Aberduar, a gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. T. O. Williams, a Ficer y plwyf. Pregethwyd yn y capel gan y Parch. T. O. Williams, a gwasanaethwyd ar lan y bedd gan weinidog Aberduar. Gwr tawel a heddychlon ydoedd, yn llon a hynaws bob amser. Gadawodd un mab a pherthynasau ereill i alaru'n gymhedrol ar ei ol.

MEHEFIN 1, yn 67 mlwydd oed, Mrs. M. J. Jones, priod Mr. James Jones, Clarence, Cwrtnewydd. Byr fu ei chystudd, ac y mae ei hymadawiad wedi bod yn un sydyn. Un o ardal Talsarn, Dyffryn Aeron, oedd ei thad, ond bu yn ysgolfeistr yn Llangaffo, Sir Fôn, ac yno y ganwyd Mrs. Jones. Ymadawodd a'i chartref pan yn ferch ieuanc gan fyned i Lundain. Ar ol bod mewn gwasanaeth yno am rai blynyddau ymbriododdd a Mr. James Jones, Brodor o Cwrtnewydd yw Mr. Jones, ond yr oedd yntau wedi ymadael o'r lle, ac wedmyned i'r Brif-ddinas. Gwnaethant eu cartref yno. Buont yn adnabyddus iawn yn mhlith Cymry Llundain. Yr oeddynt yn aelodau yn eglwys yr Annibynwyr yn Boro' Road, ac yn wasanaethgar iawn yno. Tua phum' mlynedd yn ol ymneillduodd Mr. Jones oddiwrth ei waith, a dychwelodd, yn gyntaf, i Llansantffraed, Sir Drefaldwyn, lle y triga chwaer i Mrs. Jones. Ni fu eu harosiad yn y lle hwn ond am ychydig amser, a daethant i Cwrtnewydd i dreulio gweddill eu hoes yno. Er fod Mrs. Jones yn anadnabyddus i bobl Cwrtnewydd a'r cylch ar eu dyfodiad i'r lle, ac na fu yma ond tua phedair blynedd, gwnaeth ei hun yn barchus iawn gan bawb. Ymaelododd hi a'i phriod yn Nghapel y Bryn, a buont yn aelodau ffyddlon. Yr oedd o ysbryd llednais, o feddwl diwylliedig, ac o anian grefyddol. Meddai ar y fath gymeriad prydferth a gloew fel yr oedd iddi ddylanwad pur a dyrchafol ar eraill o'i chwmpas. Teimlir gwagder a cholled ar ei hol. Claddwyd ym mynwent eglwys Capel y Bryn. Anghyoedd oedd yr angladd. Gwasanaethwyd gan y Parch. L. Williams, a chynorthwywyd gan y Parch. E. Glyn Edwards, Cwrtnewydd. Cydymdeimlir yn fawr a'r priod, yr hwn sydd wedi cael ei adael yn unig iawn. Heblaw efe, gadawodd chwaer a chefnder i alaru ar ei hol.

MEHEFIN 2, yn 84 mlwydd oed, bu farw David Davies, Esgairddu, Cellan, Llanbedr, wedi cystudd caled. Yr oedd ers tro yng ngafael y clefyd poenus—*Cancer*, a da oedd clywed am ei ollwng. Henafgwr tawel a didrwst ydoedd, caredig a chymwynasgar. Claddwyd y dydd Sadwrn canlynol ym mynwent eglwys Caeronen. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. T. O. Williams, gyda chynorthwy Ficer Llancrwys, ac yn y capel ac ar lan y bedd gan weinidog Caeronen. Efe oedd yr olaf o'r teulu a gadwodd nith a fu'n dyner wrtho, heblaw perthynasau eraill i alaru ar ei ol.

MEHEFIN 9, ar ol cystudd byr, ond caled iawn, Elizabeth Ellen Bowen, Cilwaunyddfach, Capel Evan, Castellnewydd Emlyn, yn 34 oed. Merch ydoedd i'r diweddar John a Rachel Bowen, Llwyneinion, Capel Evan, brawd iddi yw y Parch. Samuel E. Bowen, Crumlin, Iweddon. Yr oedd, yn ol tystiolaeth ei chymydogion, yn un o'r genethod goreu, yn siriol ei hwyneb, hawddgar ei hysbryd, a pharod i wneud cymwynas. Hawdd oedd deall ddydd ei hangladd ei bod yn annwyl iawn gan lawer. Nis gellir llai na theimlo dros y brodyr a'r chwiorydd sydd wedi eu gadael i wylo ei cholli—mae'r ergydion wedi bod yn aml a thrwm yn eu hanes yn ddiweddar—o fewn ychydig flynyddoedd maent wedi colli eu tad, mam, brawd, a chwaer. Claddwyd gweddillion y chwaer hon yng nghladdfa y teulu, ym mynwent Panteg, y Sadwrn dilynol, pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. D. T. Jones (A.), J. H. Jenkins (E.), Idris Thomas (B.), Clement Davies (B.), D. Edwards (B), ac E. O. Jenkins (U). Yr oedd y cynhebrwng yn un lluosog iawn.

MEHEFIN 10, yn 11 diwrnod oed, Samuel, baban bychan Lizzie Berris, Newgate, Pontshan. Claddwyd y dydd Sadwrn dilynol yu Pantdefaid, y gweinidog yn gwasanaethu.

MEHEFIN 23, bu farw Daniel Jenkins, 4, Bwllfa Row, Cwmdar, yn 70 oed. Brodor ydoedd o Glynmeherin, Cwrtnewydd, a daeth i Aberdar rhyw 20 mlynedd yn ol. Bu am flynyddoedd lawer yn *hostler* yn y Bwllfa. Ni fu ei iechyd yn dda am rai misoedd, ac yr oedd wedi colli ei glyw er's blynyddoedd, a bu hyn yn rhwystr iddo fynychu'r gwasanaeth yn yr Hen Dy Cwrdd, a gwnai'r golled hyn i fyny drwy fod yn ddarllenwr aiddgar a chyson o'r YMOFYNYDD. Claddwyd yn y Fynwent Gyhoeddus, dydd Sadwrn, Mehefin 27, a gwasanaethwyd gan y Parch. E. R. Dennis. Estynwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mrs. Jenkins a'r teulu yn ei gofid a'u hiraeth.

MANION AC HANESION.

ADRAN YR YSGOL SUL. — Dymunir cydnabod yn ddiolchgar y symiau a ganlyn:— Rhydygwin, 10s.; Capelybryn, 20s.; Alltyblacca, 16s. 5c; Capelygroes, 21s 2c — D. CLEDLYN DAVIES, *Trysorydd.*

LLANDYSSUL.—Cynhaliwyd Basar llwyddianus iawn gan Eglwys y Graig, ar y 10fed o Fehefin. Y mae y cyfeillion yn y Graig, yn ddiweddar, wedi pwrcasu y tir ar yr hwn mae y Capel wedi ei adeiladu. Er mwyn talu am y tir, a chyda'r amcan o gario allan welliantau eraill, y cynhaliwyd y Basar. Gweithiodd aelodau'r eglwys yn egniol a ffyddlon; cawsant gynhorthwy caredig a pharod gan gyfeillion y tuallan, a choronwyd yr ymdrechion hyn â llwyddiant tu hwnt i'n disgwyliadau. Agorwyd y Basar gan Mrs. Llewelyn, Brohedyn, Castell Newydd Emlyn, boneddiges, ynghyd a'u theulu, deimla ddiddordeb mawr yn yr achos. Cadeiriwyd ar yr achlysur gan Mr. T. Thomas, Cyfreithiwr, un arall o gefnogwyr selog yr Eglwys. Derbynied pawb weithiasant mor galonog ein diolchgarwch llwyraf.

CAPELYBRYN. — Cyfarfu cyfarfod o'r "League of Unitarian Women" o'r parth uchaf y Sir, yn y lle uchod, prynhawn Mercher, Mehefin 24ain. Daeth nifer dda ynghyd, a chaed tê cyn dechreu ar waith y cyfarfod. Llywyddwyd gan Miss Jones, Y Bryn, Llanybyther, a chyflawnodd ei gwaith yn fedrus. Cafwyd anerchiad gan Mrs. Lewis, Tophill, Pontypridd. Sylwodd ar y gwahanol ffyrdd drwy ba rai y gall y Gymdeithas fod o wasanaeth, a chymhellodd y rhai oedd yn bresennol i ffurfio un Gymdeithas dros y parth uchaf o'r Sir. Pasiwyd fod Cymdeithas felly yn cael ei ffurfio, ac apwyntiwyd y swyddogion canlynol:— Llywydd—Mrs. Dr. Jones, Y Bryn, Llanybyther; Ysgrifennydd—Mrs. Cledlyn Davies, Cwrtnewydd; Trysorydd — Mrs. R. C. Jones, Ogmore House, Llanbedr.

LLWYDDIANT.—Llawenydd genym ydyw hysbysu am lwyddiant Mr. Daniel Rees Evans, ail fab Mr. a Mrs. Evans, Dolaucanol, Llanybyther. Fferyllydd yn y brifddinas ydyw Mr. Evans, a phasiodd ei arholiad olaf fel fferyllydd tra yn ieuanc iawn. Yn ddiweddar, bu yn mysyrio ar gyfer cymhwyso ei hun i fod yn feddyg llygaid (*oculist*), a phasiodd yr arholiad yn llwyddianus. Dymunwn estyn ein llongyfachiadau mwyaf gwresog iddo.

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandysul.

JUST PUBLISHED.

Cr. 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. Stephenson, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original MS. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, London, W.C.2

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

ROSE TREES, TOMATO PLANTS, BEGONIAS, GERANIUMS, LOBELIAS, PALMS, FERNS, &c. &c.

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Importer of Dutch Bulbs, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

E. LLOYD JONES

BRADFORD HOUSE

LLANDYSSUL

For Suits and Costumes to order from 50s.

.. Mourning at Shortest Notice. ..

— Satisfaction Guaranteed. —



Banking Facilities

The Midland Bank, the greatest organisation of its kind in the world, offers a complete banking service through 2,200 branches in Great Britain and Ireland, and the additional advantages of perfect security and finest rates.

Deposit accounts may be opened in amounts of £1 and upwards, and interest is allowed at current rates.

The branch at 9 Lincoln Street, Llandyssul, is open every week-day, from 10 a.m. to 12 noon on Saturday and from 10 a.m. to 3 p.m. on other days.

MIDLAND BANK

LIMITED

HEAD OFFICE: 5 THREADNEEDLE ST., LONDON, E.C.2

Affiliations: Belfast Banking Co. Ltd., Northern Ireland; The Clydesdale Bank Ltd., and North of Scotland Bank Ltd., Scotland; The London City and Midland Executor and Trustee Co. Ltd.